


Llyfr Llafar
gyda
chôd QR

Gomer

GWYSTIL

Malerie Blackman

Addasiad
Meleri Wyn James



Cyfres yr Hebog



Cynnwys

1	Cipio	5
2	Panig Llwyd	9
3	Tic Toc	19
4	Fy Nal yn Wystl	31
5	Yr Helfa	49
6	Ar y Dibyn	59

Cyhoeddwyd gyntaf yn 1999 gan
Barrington Stoke Ltd, 18 Walker Street,
Edinburgh EH3 7LP dan y teitl *Hostage*
www.barringtonstoke.co.uk

Cyhoeddwyd yn Gymraeg yn 2009 gan
Wasg Gomer, Llandysul, Ceredigion, SA44 4JL
www.gomer.co.uk

ISBN 978 1 84851 001 2

© testun: Malorie Blackman, 1999 ©

© lluniau: Derek Brazell, 1999 ©

© testun Cymraeg: Meleri Wyn James, 2009 ©

Malorie Blackman a Derek Brazell wedi datgan eu hawl
deddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau 1988
eu cydnabod fel awdur ac arlunydd y llyfr hwn.

pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r
iad hwn, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i
yddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng,
i, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopio,
c fel arall, heb ganiatâd ymlaen llaw gan y cyhoeddwr.

Noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Argraffwyd a rhwymwyd yng Nghymru gan
Wasg Gomer, Llandysul, Ceredigion.



Pennod 1

Cipio

Erbyn i mi fynd allan o'r ysgol, roedd hi bron yn dywyll. Caeais sip fy anorac nes ei fod yn dynn yn erbyn fy ngên. Beth o'n i'n mynd i'w wneud nesa? Ro'n i'n sicr o un peth, do'n i ddim yn mynd 'nôl i'r tŷ. Wrth i mi gicio fy ffordd trwy'r eira, penderfynais fynd i Stryd Fawr Aberonnen am hufen iâ ac yna, efallai, i'r sinema. Gallwn osgoi gweld Dad am dipyn bach wedyn. Do'n i ddim eisiau ei weld o gwbl – ddim ar ôl y ffræ fawr roedden ni wedi'i chael y bore hwnnw cyn i mi fynd i'r ysgol.

Ro'n i'n casáu ein tŷ ni, a do'n i byth yn ei alw e'n gartre. Ers i Mam fynd, roedd hi mor unig yno, mor ofnadwy o dawel. Hyd

yn oed pan oedd Dad a fi gyda'n gilydd,
doedd fawr o Gymraeg rhyngom.

Claddais fy nwylo yn fy mhocedi. Yno,
ffeindiais dau bîn cau, drych wedi cracio, gwm
cnoi, fy nghrib, pwt o bensil, allweddi'r tŷ –
ond fawr ddim arian. Dyna ddiwedd ar y
syniad o fynd i'r sinema! Dim ond hufen
iâ 'te!


'Angharad? Angharad Huws?'

Wrth glywed fy enw, troais. Gwenodd
menyw â gwallt brown byr arna i o'r tu ôl i
olwyn Rover glas. Do'n i erioed wedi ei
gweld o'r blaen, felly sut oedd hi'n gwybod
fy enw? Stopiais gerdded. Stopiodd hithau'r
car, er bod yr injan yn dal i chwyrnu.

'Angharad Huws?' gofynnodd eto.

'Ie?' atebais yn ansicr.

* O unlle gwasgwyd llaw gynnes, arw oedd



yn ogleuo o betrol yn dynn dros fy ngheg.
Cydiodd braich o gwmpas fy nghanol fel
feis. Cyn i mi gael amser i anadlu bron, ces
fy nghodi oddi ar fy nhraed. Gallwn glywed
llais dyn y tu ôl i mi, ond ro'n i'n methu'n
lân â deall beth oedd e'n ei ddweud
uwchlaw sŵn fy nghalon, oedd yn curo'n
gyflym yn erbyn fy asennau. Erbyn i mi
feddwl am frwydro a chicio, ro'n i wedi cael
fy nhaflu'n ddiseremoni i'r car, a chyda
sgrech y brêcs, sgrialodd hwnnw'n gyflym i
lawr y ffordd.



Pennod 2

Panig Llwyd

Digwyddodd popeth mor gyflym.

Edrychais o'm cwmpas, fy mhen yn hercio fel pyped. Eisteddai dyn penfelyn mewn cot law lwyd, ysgafn ar y dde i mi, a dyn moel mewn siaced ledr las tywyll ar y chwith. Doedd dim lle i roi blewyn rhyngom – teimlwn fel past dannedd yn cael ei wasgu o diwb.

Wedi cael llond twll o ofn, agorais fy ngheg a *sgrechian* mor uchel ag y gallwn i. Ond dim ond am ryw dri eiliad y bues i wrthi, cyn i'r boi moel roi ei law dros fy ngheg.

'CAU DY GEG!' hisiodd.

Roedd ei anadl yn drewi o arlleg, a'i fysedd yn drewi o betrol. Ceisiais sgrechian trwy ei fysedd, ond rhuthrodd yr aer i gefn fy ngwddf a dechreuais besychu.

'Gwranda di arna i,' meddai Moelun.
'Dy'n ni ddim yn mynd i dy frifo di. Dim ond gwneud yn siŵr bod dy dad yn gwneud fel rydyn ni'n dweud. Os bydd e'n foi da, ufudd, gei di fynd. Deall?'

Atebais i ddim. *Allwn i ddim.* Roedd fy stumog yn troi a throsi. Petawn i'n agor fy ngheg byddwn yn chwydu dros bob man.

'Paid â sgrechian eto, neu . . .' meddai'r dyn arall, yr un penfelyn â'r llygaid glas rhewllyd. Yn araf bach tynnodd Moelun ei fysedd oddi ar fy ngheg. Agorais fy ngheg i sgrechian eto, ond ddaeth yr un eiliad o sŵn allan y tro hwn. Roedd bysedd Moelun 'nôl dros fy ngheg.



'Reit. Os mai dyna rwyd ti isie,' meddai, gan rythu arna i.


Roedd ei law'n gwasgu mor galed ar fy ngheg, roedd hi'n fy mrifo. Roedd ei fysedd tew yn cuddio fy ffroenau yn ogystal â 'ngheg. Ro'n i'n methu anadlu. Roedd fy ysgyfaint bron â ffrwydro. Ceisiais dynnu ar ei fysedd gyda fy nwylo, ond gwasgodd

yntau'n galetach. Edrychais i fyny arno, a'r
dagrau'n llosgi fy llygaid. Gwgodd arna i,
yna llaciodd ei afael ryw ychydig. Plygais fy
mhen am 'nôl, gan anadlu aer yn ddwfn
i'm hysgyfaint. Ro'n i eisiau sgrechian a
gweiddi a thaflu fy hun yn erbyn drysau'r
car.

Paid â mynd i banig, meddwn wrthyf fy
hun . . . pwylla . . . meddylia . . . Llenwodd
y geiriau fy mhen wrth i mi geisio, heb
lwyddiant, atal fy hun rhag crynu fel deilen.
Beth ddylwn i ei wneud?

'Dyna ddigon, Angharad,' meddai Moelun
yn dawel. 'Gwna beth dwi'n ddweud a
byddwn ni i gyd ar ein hennill.'

'Mewn mwy nag un ffordd!' chwarddodd
y dyn penfelyn. Chwarddodd yn fileinig a
hunanfodlon ac aeth ias i lawr asgwrn fy
nghefn wrth i mi wrando arno.



Edrychais allan drwy'r ffenestri, yn barod i
daflu fy hun yn erbyn un o ddrysau'r car i
dynnu sylw rhywun y funud y byddwn i'n
cael cyfle, ond roedd y gyrrwr yn nabod
Aberonnen yn dda. Aeth ar hyd y strydoedd
cefn a doedd fawr o bobl yno a dim
goleuadau traffig.



Beth ddylwn i ei wneud?

Roedd Moelun wedi sôn am Dad yn gwneud rhywbeth roedden nhw eisiau. Ai dyna pam roedden nhw wedi fy nghipio? Ie, mae'n rhaid. Dad oedd perchennog y siop emau orau yn Aberonnen. Ro'n i'n credu'n sicr bod Dad wedi dewis rhedeg busnes gemau ar ôl gadael y fyddin, fel na fyddai'n rhaid iddo ddelio â phlant. Doedd Dad ddim yn hoffi plant.

Sbonciodd y car fel cangarw ar sbring, gan ddod â mi 'nôl i'r presennol a'r sefyllfa erchyll ro'n i ynddi. *Gwna rywbeth!*

Ar ôl hir a hwyr fe adawon ni Aberonnen ar hyd ffordd yr hen gapel.

'Rhowch rywbeth am ei llygaid hi,' gorchmynnodd y fenyw oedd yn gyrru'r car.

Tynnodd y dyn penfelyn sgarff lwyd frwnt o'r tu ôl iddo.



'Oes rhaid i ni wneud 'na?' gwgodd Moelun. 'Byddwn ni wedi hen ddiflannu cyn iddyn nhw ei ffeindio hi. Beth yw'r ots os bydd hi'n gweld ble ry'n ni'n mynd?'

Syllodd y fenyw arno'n gas. 'Gwna fel dwi'n dweud,' gorchmynnodd, cyn troi 'nôl at yr heol.

'Na! NA!' sgrechiais.

Allwn i ddim helpu fy hun. Collais fy limpin yn gyfan gwbl. Do'n i ddim yn mynd i adael iddyn nhw roi sgarff dros fy llygaid heb gwffio. Byth. Na. Nefar. Ciciais a tharo mor galed ag y gallwn i. Cydiodd Moelun yn fy mreichiau, ei ddwylo fel feis. Ceisiodd y dyn penfelyn osod y sgarff dros fy llygaid beth bynnag, a'r foment pan ddaeth un o'i ddwylo o fewn cyrraedd i mi, dyma fi'n brathu – yn galed. Rhegodd y dyn, yna fy nhynnu oddi ar Moelun a'm hysgwyd nes bod fy nannedd yn clecian.

'Gwna di hynna unwaith eto ac fe wna
i'n siŵr na fydd dy dad yn dy weld di byth
eto. Dim mewn un darn. Ti'n deall?'
hisiodd.

Atebais i ddim.

'TI'N DEALL?' gwaeddodd.

Nodiais fy mhen, mewn arswyd llwyr.

'Da iawn. Nawr aros yn llonydd,' meddai.

Fyddwn i ddim wedi gallu symud, hyd yn
oed petai fy mywyd yn dibynnu ar hynny.
Cofiais nad o'n i eisiau mynd adre achos
do'n i ddim eisiau gweld Dad. Doedd fawr o
amser ers hynny. Nawr, ro'n i'n meddwl
rhywbeth hollol wahanol. A fyddwn i'n
gweld Dad fyth eto?

Pennod 3

Tic Toc

Gemau Dad roedden nhw eisiau – roedd
hynny'n amlwg. Ond roedd un cwestiwn
mawr yn aros. A fyddai Dad yn barod i roi
ei emau gwerthfawr i gyd iddyn nhw, jest er
fy mwyn i? Ar ôl ein ffrae ffyrnig y bore
hwnnw, do'n i ddim yn siŵr. Ac nid bore
yma oedd yr unig ffrae i ni ei chael. Ers i
Mam adael, doedd Dad a fi'n gwneud dim
byd ond ffraeo.

Dy'n nhw ddim wedi dy guro di eto,
meddyliais yn wyllt. Paid â mynd i banig,
rhaid aros yn effro.

Ond roedd hi mor anodd. Roedd fy nghalon yn dal i lamu yn fy mrest a'm stumog yn troi fel peiriant sychu dillad.

Y peth cynta i'w wneud oedd ceisio darganfod ble ro'n i. Ceisiais feddwl yn glir. Codais fy mhen rhyw fymryn ond allwn i ddim gweld o dan y sgarff. Nawr beth?

Wel . . . fe aethon ni ar hyd ffordd yr hen gapel, ac ers iddyn nhw roi sgarff am fy llygaid roedden ni wedi bod yn teithio am o leia tri munud. Pa mor gyflym? Dim mor gyflym â Dad pan oedd e'n gyrru, felly llai na phedwar deg milltir yr awr. Allwn i fyth fod yn siŵr.

Dechreuais gyfri. Pan gyrhaeddais i chwe chant, trodd y car i'r chwith. Dechreuais gyfri o un eto, yn araf ac yn bwylllog, gan gyfri'r eiliadau. Roedd e'n dric roedd Dad wedi'i ddysgu yn y fyddin. Yr unig bryd doedden ni ddim yn ffraeo oedd pan oedd Dad yn adrodd storïau am ei amser yn y fyddin.

Mwy o gyfri. Roedd y ffordd yn droellog ac yn igam ogamu, ond ni wnaeth y car arafu i droi go iawn hyd nes i mi gyrraedd un fil a phedwar cant, ac yna trodd i'r dde. Cyfrais i gant ac ugain cyn i'r car droi i'r dde eto. Mae'n rhaid ein bod wedi troi i mewn i drac neu gae achos dechreuodd y car, a phawb ynddo, neidio i fyny ac i lawr fel petaen ni i gyd ar drampolîn.

A thrwy'r amser, ni ddywedodd neb oedd yn y car yr un gair. Ceisiais gofio'r ffordd roedden ni'n teithio arni, fel cofio'r rhifau i agor sêff. Chwe chant i'r chwith, un fil pedwar cant i'r dde, cant ac ugain i'r dde.

Yn sydyn stopiodd y car a diffoddwyd yr injan. Edrychais o'm cwmpas i weld, fel petai, drwy'r sgarff dros fy llygaid. Agorwyd drysau'r car. Eisteddais yn llonydd, gan wrando ar yr herwgipwyr yn mynd allan o'r car.



'Ffordd hyn.'

Cydiodd rhywun yn fy llaw chwith a'm llusgo o'r car. Roedd yr eira'n fwy ffres fan hyn nag yn y dre. Crensiat o dan fy welis. Clywais y gwynt yn chwibanu mewn rhyw goed tal i'r dde. Fe droion ni i'r chwith a dechrau cerdded. Ar ôl deg cam teimlai'r llawr yn gadarn wrth i ni fynd i mewn i ryw fath o adeilad. Clywais ddrws yn cau y tu ôl i mi. Do'n i erioed o'r blaen wedi cael cymaint o ofn sŵn drws yn cau.

Ar ôl pum cam, dywedodd Moelun yn sarrug, 'Grisiau!'

Codais fy nhraed yn uwch a dechrau dringo'r grisiau. Deuddeg gris – a'r pumed yn gwichian.

Ar ben y grisiau ces fy arwain i ystafell arall. Safais yn stond.



'G-Ga i dynnu'r sgarff n-nawr?' sibrydais, fy nwylo'n symud tuag at fy llygaid.

Wnaeth neb fy stopio, felly tynnais y sgarff, gan flincio'n gyflym er mwyn cyfarwyddo â'r ystafell. Roedd hi'n llwm, gyda waliau wedi'u peintio'n las, a llawr pren brwnt. Roedd hi'n wag ar wahân i gadair a bwrdd, gyda phapur newydd a chan cwrw wedi'i wasgu arno. Hoeliwyd stylod pren ar draws y ffenest. Roedd yr herwgipwyr yn fy ngwylio. Roedd tawelwch yr ystafell yn fyddarol.

'B-beth y'ch chi isie i Dad wneud?' Ro'n i wedi dyfalu'n barod beth roedden nhw ei eisiau, ond os gallwn i siarad ro'n i'n fyw. Ac os o'n i'n fyw, yna gallwn i ddianc. *Yn bendant.*

Gwenodd y ddau ddyn ar ei gilydd yn slei bach.



'Ddwedwn ni fel hyn, ife? Ni'n moyn iddo fe ddod â rhywbeth i ni,' meddai'r dyn penfelyn.

'A well iddo fe beidio ceisio'n twyllo ni chwaith,' meddai Moelun.

'Rhoi rhywbeth . . ?' dywedais gan faglu fel petai atal dweud arnaf.


'Ieeee!' Gwenodd Moelun fel cath,
'Rhywbeth gwerth- . . .'

'Cau dy geg, Jenks!' cyfarthodd y dyn penfelyn yn gas.

Felly, nawr ro'n i'n gwybod enw iawn yr un moel.

'Dim enwau o flaen y ferch – cofio?'
hisiodd y fenyw.

Trodd pawb i edrych arna i. Do'n i'n gallu gwneud dim. Dechreuais grio. Mwy'n y byd




ro'n i'n ceisio stopio, cyflyma'n y byd roedd y dagrau'n llifo. Petai Dad yma yn dy le di, fyddai e ddim yn crio, meddwn wrthyf fy hun. Doedd dim byd byth yn gwneud i Dad grio.

'Clymwch ei dwylo a'i choesau hi,' meddai'r fenyw, ar ôl saib.

'Gadewch hynna i mi,' meddai Jenks.

Tybed a allwn i ddianc? meddyliais. Gallwn fynd heibio'r ddau ddyn, ond roedd y fenyw'n sefyll reit wrth ymyl y drws. Yna, cerddodd y fenyw draw at Jenks a sibrwd yn ei glust. Anadlais yn ddwfn. Nawr amdani, dyma fy unig gyfle.

Camodd Jenks ymlaen i sefyll o fy mlaen a chollais y cyfle i ddianc. Fydden i'n cael cyfle arall?



Pennod 4

Fy Nal yn Wystl

'Dewch i lawr ar ôl i chi orffen,' meddai'r fenyw. 'Dwi isie siarad â chi – y ddau ohonoch chi.'

Aeth y fenyw a'r dyn penfelyn allan o'r ystafell. Clywais nhw'n cerdded i lawr y grisiau. Dyma fi'n troi at y dyn moel.

'Paid â'm rhwymo i, Jenks,' sibrydais. 'Allen i ddim diodde hynny.'

'Does dim dewis 'da fi,' meddai'n sarrug. 'A byddwn i'n anghofio'r enw 'na, tasen i'n ti. Paid â'i ddefnyddio fe o flaen y lleill.'

Siglais fy mhen. Do'n i ddim yn dwp.

'Y'ch chi . . . isie'r gemau sydd yn siop Dad? Ai dyna'r rh-rhannu roeddech chi i gyd yn siarad amdano?' gofynnais.

Tynnodd Jenks raff fain, blastig o boced ei siaced cyn nodio'i ben. Suddodd fy nghalon i fysedd fy nhraed. Roedd Dad yn defnyddio'r un math o raff i lapio parseli adre. Roedd hi'n denau ond yn gryf iawn, bron yn amhosib ei thorri.

'Unwaith bydd y gemau 'da ni, gei di fynd. Dwi'n addo,' meddai Jenks.

'A beth os na fydd Dad yn eu rhoi nhw i chi?'

'Mae e isie ti 'nôl, on'd yw e?'

Rhewodd y gwaed yn fy nghorff, achos dyna'r broblem. *Do'n i ddim yn gwybod.* Roedd Dad yn caru ei siop a'i emau. Roedd



Dad yn mynd i'r siop i guddio bob tro roedd y ffraeo rhyngddo fe a Mam yn rhy chwerw. Droeon, ro'n i wedi ei wyllo'n glanhau'r mwclis aur ac arian, yn polisho modrwyau aur yn gariadus, ac yn dystio gemau gwerthfawr. Ro'n i wedi teimlo'n eiddigeddus hyd yn oed. Yna, byddwn yn teimlo fel ffŵl ac yn ofnadwy o grac am deimlo'n genfigennus o ryw ddarnau o fetel a gwydr disglair.



'Dere 'mlaen. Fyddwn ni ddim yn hir. Rho dy ddwylo tu ôl i dy gefn,' gorchmynnodd Jenks.

Yn anfodlon, dyma fi'n gwneud hynny. Yna, cofiais rywbeth roedd Dad wedi'i ddweud wrtha i unwaith, rhywbeth arall roedd e wedi'i ddysgu yn y fyddin. Gan gadw fy arddyrnau gyda'i gilydd, plygais fy nwylo am yn ôl, gyda chledrau fy nwylo mor bell oddi wrth ei gilydd ag y gallwn i. Clymodd Jenks fy arddyrnau gyda'i gilydd, yn dynn. Eisteddais, yna clymodd fy fferau. Ceisiais gadw fy fferau gyda'i gilydd a 'nhraed ar wahân, gan symud fy nhraed i fyny ryw ychydig. Dywedodd Dad bod angen mwy o raff ar rywun sy'n eich rhwymo, i glymu eich dwylo a'ch coesau os byddwch chi'n tynhau eich cyhyrau a symud eich dwylo a'ch traed. Yna, pan fyddech chi'n ymlacio, byddai'r rhaffau'n fwy llac na phetaech wedi ymlacio i ddechrau. Ar ôl iddo orffen, safodd Jenks ar ei draed.

'Oes rhaid i mi dy gagio di?' gofynnodd.

Siglais fy mhen yn gyflym. Do'n i ddim yn medru dioddef meddwl am gael rhywbeth dros fy ngheg.

'Un pip mas ohonot ti ac fe fydda i'n dy ffrwyno di fel ci.'

Nodiais.

'Sdim pwynt gweiddi a sgrechian, ry'n ni ymhell bell o bob man. Yr unig beth wnei di fydd gwylltio'r ddau 'na lawr grisiau. Ti'n deall?' meddai Jenks.

Nodiais eto. Clywais sŵn traed, yna daeth y ddau arall i mewn i'r ystafell. Roedd y fenyw'n siarad ar ffôn symudol.

'Mr Huws, fe wnewch chi'n gwmws beth ry'n ni'n ddweud . . .'

Stopiodd siarad.

Gallwn glywed llais Dad yn gynddeiriog ar ben arall y ffôn.

'Gwrandewch arna i, Mr Huws,' torrodd y fenyw ar ei draws. 'Mae gen i rywun fan hyn





sy'n mynd i'ch gorfodi chi i newid eich meddwl. Dyweda helô wrth dy dad, Angharad.'

Gwthiodd y ffôn yn erbyn fy nghlust.

'Dad . . .' sibrydais. 'Dad, ti sy 'na?'


'Angharad . . ?' Roedd Dad wedi cael sioc. 'Angharad, wyt ti'n iawn?'

'Dad, mae ofn arna i . . .' Cipiwyd y ffôn oddi arna i.

'Dyna ddigon,' meddai'r fenyw. Gadawodd hi a'r dyn penfelyn yr ystafell, a'r fenyw'n siarad yn frysïog ar y ffôn.

'Fel o'n i'n dweud, bihafia a fyddi di gartre chwap,' meddai Jenks.

Aeth allan o'r ystafell, gan gloi'r drws y tu ôl iddo.



Gorfodais fy hun i ymlacio. Ar unwaith, teimlais y rhaff yn llacio o amgylch fy arddyrnau. Yna gorweddais ar y llawr, yn boenus o ymwybodol bod yn rhaid i mi fod yn dawel. Gorweddais ar fy ochr a ffurfio fy nghorff yn belen, nes i mi lwyddo i lithro fy nwylo rhwymedig heibio i 'nghluniau ac i lawr cefn fy nghoesau. Yn gyntaf, llithrais sodlau fy nhraed drwy'r cylch a wnaed gan fy mreichiau. Fûm i fawr o dro, rwy'n hyblyg iawn. Eisteddais unwaith eto, gan symud y rhaff am fy nghoesau 'nôl ac ymlaen. Roedd y rhaff yn torri i mewn i 'mysedd wrth i mi ei datod, ond ar ôl hir a hwyr disgynnodd oddi ar fy fferau. Roedd hi'n fwy anodd datod fy nwylo. Roedd yn rhaid i mi ddefnyddio fy nannedd a bys un llaw a bawd y llall i wthio'r cwlwm yn rhydd. Ond fe lwyddais yn y diwedd.

Beth nawr?

Safais a cherdded at y ffenest ar flaenau fy nhraed. Dim gobaith. Doedd dim un ffordd o dynnu'r styllod oedd yn gorchuddio'r ffenestri heb wneud twrw mawr.

Meddwl . . . meddwl . . . meddwl . . .
chwiliais yn fy mhocedi, gan obeithio bod rhywbeth yno fyddai'n rhoi syniad i mi. Edrychais o 'nghwmpas. Doedd gen i mo'r syniad lleia beth i'w wneud. Ar flaenau fy nhraed, cerddais ar hyd yr ystafell at y drws. Ro'n i'n meddwl i mi glywed Jenks yn cloi'r drws, a throais y bwlyn rhag ofn. Dim. Ond beth o'n i'n ddisgwyl? Rhoddais bip drwy dwll y clo, i geisio gweld a oedd yna rywun ar y landin yn gwarchod y drws, ond methais â gweld dim. Ar ochr arall y drws, roedd yr allwedd yn y clo.

Dyna pryd daeth egin syniad i mi. Roedd yn syniad peryglus iawn . . .

Cripiais ar hyd yr ystafell i nôl y papur



newydd. Rhoddais y papur i orwedd yn fflat, yna fe'i gwithiais o dan y drws, nes bod hanner ar fy ochr i o'r drws, a'r hanner arall ar y landin. Symudais y papur newydd fel ei fod yn union o dan yr allwedd.



Rhoddais ddarn o gwm cnoi yn fy ngheg,
i'w feddalu. Sythais un o'r pinnau cau oedd
gen i a dechrau ei brocio yn nhwll y clo.
Dechreuodd yr allwedd symud ychydig nes
iddi gwmpo o'r twll, gan lanio gyda chlinc
ar y papur newydd. Daliais fy anadl. Oedd
yr herwgipwyr wedi fy nghlywed? Yn gyflym,
tynnais y papur newydd at fy ochr i o'r
drws. Roedd yr allwedd yno ar y papur
newydd. Rhewais, gan ddisgwyl eu clywed
yn rhuthro i fyny'r grisiau unrhyw funud.

Tawelwch.

Agorais y drws, nes ei fod bron yn
cyffwrdd â'r wal. Cnoais y gwm yn galetach.
Nawr dyma'r rhan anodda. Rhedais at y
ffenest a'i tharo'n galed â'm dyrnau.

'Help . . . HELP!' Sgrechiais nerth fy
ysgyfaint.



Ar unwaith clywais sŵn traed yn taranu i
fyny'r grisiau.

Plis gadewch i bob un ohonyn nhw ddod . . .
gweddiâis.

Rhedais ar draws yr ystafell i sefyll
y tu ôl i'r drws. Sychais fy nwylo chwyslyd
ar fy nghot, gan afael yn dynn yn yr
allwedd.

'Roeddet ti i fod i'w chlymu hi â rhaff,'
meddai'r fenyw'n ffyrnig.

'Wnes i,' clywais Jenks yn ateb.

'Mae'r drws led y pen ar agor,' meddai'r
dyn penfelyn.

Rhuthrodd y tri i mewn i'r ystafell. Dyma
fy nghyfle. Rhuthrais i ochr arall y drws a'i
dynnu ar gau, gan wthio'r allwedd i dwll y
clo wrth dynnu. Gwaeddodd yr herwgipwyr

arna i, a rhedodd y dyn penfelyn at y drws
wrth iddo gau, ei wyneb yn llawn
cynddaredd. Yn wyllt, troais yr allwedd yn
nhwll y clo.

Pennod 5

Yr Helfa

Dim ond mewn pryd. Cleciodd bwlyn y drws
yn ffyrnig. Yn gyflym tynnais y gwm cnoi o
'ngheg a'i stwffio yn nhwll y clo.

Defnyddiais ben y pensil i'w wthio yr holl
ffordd i mewn.

'Allan o'r ffordd. Mae gen i allwedd sbâr,'
clywais y fenyw'n dweud.

Am y tro cynta ers iddyn nhw fy nal,
gwenais wên fach. Do'n i ddim yn siŵr a
oedd ganddyn nhw allwedd sbâr ai peidio.
Chwarae'n saff o'n i. Ond doedd allwedd
sbâr y fenyw ddim yn mynd i fod o help

iddi nawr bod fy ngwm cnoi a fy mhensil yn nhwll y clo.

'Angharad, agor y drws. NAWR!' gorchmynnodd y dyn penfelyn.

O, ieee! Iawn! meddyliais. A rhuthrais i lawr y grisiau. Roedd amser yn brin.

A dyna fe – yr hyn ro'n i wedi bod yn chwilio amdano. *Y ffôn . . .*

Roedd y lleill yn dal i weiddi arna i o fyny'r grisiau. Cleciodd y bwlyn wrth iddyn nhw geisio agor y drws.

Codais y ffôn. Ble fyddai Dad, tybed? Adre neu yn y siop? Doedd dim amser i bendroni. Byddai'n gyflymach ffonio'r heddlu. Gwasgais 999 a gofyn i'r derbynnydd brys am yr heddlu. I fyny'r grisiau, roedden nhw nawr yn ceisio taro'r drws i lawr â'u dyrnau. O'r diwedd, ces ateb.

'Plîs helpwch fi. Fy enw i yw Angharad Huws. Dad yw perchennog Gemau Huws yn y Stryd Fawr. Gwrandewch! Dwi wedi cael fy herwgipio. Gyrrodd yr herwgipwyr allan o Aberonnen ar hyd ffordd yr hen gapel.



Fe yrron ni ar hyd ffordd syth am tua tri
munud, yna chwe chant i'r chwith, un fil
a phedwar cant i'r dde, cant ac ugain i'r
dde. Na! Peidiwch â thorri ar fy nhraws!
Gofynnwch i Dad, bydd e'n gwybod beth yw
ystyr hyn!' parablais wrth i'r llais am ben
arall y ffôn geisio dorri ar fy nhraws. 'Dwi
wedi cael fy herwgipio a dwi ddim yn
gwybod ble . . .'

Ond y foment honno clywais y drws i
fyny'r grisiau'n chwalu. Atseiniodd y sŵn
drwy'r tŷ. Teimlai fel petai'r eiliad nesa'n
para am byth. Roedd fel petai'r awyr yn y
tŷ wedi rhewi.

Yna digwyddodd popeth ar unwaith.
Clywais sŵn gweiddi. Yna, daeth sŵn traed
yn rhedeg. Braidd y gallwn ei glywed
uwchlaw sŵn fy nghalon yn carlamu.
Arhosais i ddim un eiliad yn rhagor. Bron
yn ddall gan banig, taflais fy hun at ddrws

y ffrynt. Roedd fy nwylo'n fodiau i gyd wrth
i mi dynnu'n wyllt ar gliced y drws.

Paid â throi rownd . . . dywedais wrthyf fy
hun dro ar ôl tro. Wrth beidio ag edrych yn
ôl teimlwn y gallwn atal fy herwgipwyr
rhag fy nal.

Agorodd y drws. Rhaid mai eiliad yn unig
gymerodd hi, dwy ar y mwyaf, ond nid
dyna sut oedd hi'n teimlo ar y pryd.


'ANGHARAD . . . !'

'DERE 'NÔL NAWR . . .'

O rywle'n agos y tu ôl i mi daeth lleisiau
Moelun a'r fenyw.

Paid â throi rownd . . .

Cyffyrddodd bysedd yn fy ysgwydd.
Sgrechiais, a chan grymu fy mhen,
brasgamais i gyfeiriad y coed o dan olau'r



lleuad cyn gynted ag y gallwn i. Roedd yn rhaid i mi ddianc cyn i bwy bynnag oedd yno allu cael gafael arna i. Yna, diflannodd y lleuad y tu ôl i gwmwl a do'n i ddim yn gallu gweld fy llaw o flaen fy wyneb – ond doedd dim ots gen i. Os oedd yn rhaid i mi ddewis rhwng y tywyllwch a'r herwgipwyr, yna'r tywyllwch oedd yn ennill yn hawdd.

'ANGHARAD, WNAWN NI DDIM DY FRIFO DI . . .'

'DAMO TI! DERE 'NÔL . . .'

Roedd eu lleisiau fel petaen nhw'n dod o bob man ar unwaith. Hyd y gwyddwn i, gallwn fod ar fin bwrw un yn ei fol gyda 'mhen. Da iawn!

Paid â throi i edrych, Angharad. Rhed.

Llithrais, yna llusgais fy hun ar fy nhraed a dechrau rhedeg unwaith eto. Rhedais a rhedais hyd nes mod i'n teimlo fel petai fy



ysgyfaint ar fin byrstio fel balŵn – a daliais ati i redeg. Do'n i ddim yn gallu clywed eu lleisiau erbyn hyn. Doedd dim ots.

Yna, diflannodd y tir o dan fy nhraed. Dechreuais ddisgyn i lawr ac i lawr. Roedd fel disgyn trwy'r gofod neu ddisgyn mewn ffilm araf. Ro'n i'n meddwl na fyddwn i fyth yn stopio.



Pennod 6

Ar y Dibyn

Rhaid 'mod i'n anymwybodol am ychydig. Dihunais fel petai o hunllef ddrwg, yr hunllef waetha i mi ei chael erioed. Ond ei bod hi'n dal yn dywyll ac yn rhewllyd o oer – ac yn real iawn. Roedd fy nghorff i gyd yn brifo. Ro'n i'n methu gweld dim. Ond gallwn synhwyro nad oedd pethau'n iawn. Symudais ryw ychydig, gan deimlo gyda fy nwylo. Roedd tua deugain centimetr o silff soled o mlaen, ac ar ôl hynny . . . dim. Ro'n i ar silff hir, gul o dir yn rhywle, a dyn a wŷr faint o gwymp oedd y tu hwnt i hynny.

Diflannodd yr hyn oedd yn weddill o fy newrder.

'HELP!' sgrechiais nerth fy ysgyfaint. Codais fy mreichiau a gweiddi eto. 'HELP!'

Symudodd y silff. Wir! Fe deimlais y silff yn ysgwyd ac yn symud dipyn bach.

Ro'n i'n methu anadlu. Ro'n i'n tagu ar fy arswyd. Yn araf, teimlais y tu ôl i mi am rywle i'm llaw fedru gafael. Doedd dim byd yno. Ac ro'n i mor oer, yn rhynnu. Ro'n wedi blino'n lân. Yr unig beth ro'n i eisïau ei wneud oedd cysgu. Ond cofiwn Dad yn dweud wrtha i os oeddech chi'n sownd y tu allan yn rhywle ac yn gythreulig o oer, un o'r pethau gwaetha y gallech chi ei wneud oedd ildio a chysgu. 'Gwna hynny a falle na fyddi di fyth yn dihunio,' meddai.

Dad . . . petawn i ond yn cael ei weld

unwaith eto jest i'w gwtsho fe a dweud . . . sori.

'DAD . . .' gwaeddais yn wyllt.

'ANGHARAD? ANGHARAD!'

Yna, roedd golau'n disgleirio yn fy llygaid, yn fy nallu i.

'Angharad, dal sownd. Dwi yma gyda'r heddlu. Rwy'ti wedi syrthio peth o'r ffordd i lawr chwarel Aberonnen . . . Arhosa'n llonydd. Ni'n dod lawr i dy nôl di.'

Ro'n i'n methu atal y dagrau rhag llifo. Dechreuais feichio crio eto, hyd yn oed yn galetach nag o'r blaen. Dad oedd yno.

Roedd Dad wedi dod i chwilio amdanaf.

Yng ngolau'r tors uwch fy mhen, gallwn weld plisman yn clymu rhaff o gwmpas ei ganol.





'Angharad, Sarjant Roberts ydw i. Mae popeth yn iawn. Dwi'n dod i dy nôl di, felly paid â dianc 'nei di!'

Gwnaeth hynny i mi chwerthin dipyn bach, er mod i'n dal i grio. Yna daliodd Dad a'r plismyn eraill yn dynn ym mhen arall y rhaff. Daeth Sarjant Roberts i lawr i fy nôl a 'nghodi fel sach o datws ar ei ysgwyddau. Yna, dringodd i fyny ochr y chwarel. Ces fy nghodi oddi ar gefn y plisman gan Dad cyn i 'nhraed gyffwrdd y llawr hyd yn oed. Dwi ddim yn gwybod pwy oedd yn gafael yn fwyaf tyn – Dad wrth iddo fy nghwtsho i, neu fi wrth gwtsho Dad. Roedd fy moch yn wlyb yn erbyn un Dad, ond nid fi oedd yn crio. Roedd tri phlisman a phlismones o'n cwmpas ni, yn disgleirio golau tors arnom ac yn gwenu'n rhes o wynebau hapus.

'Dad, w-wnes ti roi'r gemau i'r herwgipwyr?' sibrydais.

'Angharad fach, fe fydden i wedi rhoi popeth sy gen i i dy gael di adre'n saff,' gwenodd Dad.

'Sut oeddet ti'n gwybod ble i ddod o hyd i mi?' sniffiais.

'Fe gyrhaeddod ni siop dy dad jest wrth iddo baratoi i adael gyda dau fag siopa'n llawn o emau i'r herwgipwyr. Roedd e'n gallu deall dy neges gôd di,' meddai'r plisman oedd agosa atom.

Gwenodd Dad a minnau ar ein gilydd.

'A dweud y gwir, syr, fe ddylech chi fod wedi cysylltu â ni'n syth,' meddai Sarjant Roberts wrth Dad. 'Ry'n ni'r heddlu'n gwybod sut i ddelio â materion fel hyn.'

'Gormod o risg,' meddai Dad. 'Mae Angharad yn golygu mwy i fi na'r holl emau yn y byd i gyd.'

'Ble mae'r herwgipwyr nawr?' gofynnais.

'Ry'n ni wedi eu dal nhw i gyd!' gwenodd y blismones. 'Maen nhw'n dal i fethu deall sut lwyddaist ti i ddweud wrthon ni am eu cuddfan a thithau â sgarff dros dy lygaid yr holl ffordd.'

'Beth petaech chi'ch dau'n mynd nawr. Gallwn ni eich holi yn y bore,' meddai Sarjant Roberts.

'Dad, gawn ni fynd adre?' sibrydais.

'Beth am i mi wneud dy hoff swper di – bîns, sosej a thato stwnsh? Gei di fath i gynhesu tra mod i'n cwcan. Wedyn, gewn ni sgwrs go iawn. Ocê?'

'Ocê,' gwenais. Dyna'r cyfan ro'n i eisiau ar hyd yr amser.

Ac fe gerddod ni law yn llaw yr holl ffordd 'nôl at gar Dad.



Hefyd yn y gyfres:

Dilys Ddwl
Dilys Ddwl ar Goll
Peidiwch â Mynd i'r Seler
Tair Gôl i Al
Taro'r Targed
Y Ddau Jac
Codi Calon Tad-cu
Y Tŷ Dienw
Byw gyda Fampirod
Gwarchae!
Ysgol Cŵn Bach
Brad
Wmba Bwmba o'r Gofod
Cath Modryb Bela
Dydd Gwener am Byth
Ail Lwytho'r Gameboy
Huw Puw a'r Tadau Hud
Arwr y Naid Bynji
Y Dwsin Drwg

GWYSTL

'Gwna di hynna unwaith eto, ac fe wna i'n siŵr
na fydd dy dad yn dy weld di byth eto!'

Yn unig. Sgarff am eich llygaid. Dim syniad lle rydych
chi na beth fydd yn digwydd nesa. Yr unig beth
rydych chi'n ei wybod gw eich bod wedi cael eich
herwgio. Ac mae'n rhaid i chi ddianc.

Ydych chi'n ddigon dewr?



Cyfres yr *Hebog*

Llun y clawr: Derek Brazell

ISBN 978-1-84851-001-2



9 781848 510012

www.gomer.co.uk

Gwasg Gomer
Llandysul
Ceredigion
SA44 4JL

£4.99

